




Prifysgol Cymru  
Y Drindod Dewi Sant  
University of Wales  
Trinity Saint David



Cytundeb Myfyriwr  
2022/23

## Cytundeb Myfyriwr 2022/23

### Cynnwys

Cyflwyniad .....	3
1. Talu Ffioedd .....	3
2. Cywirdeb Gwybodaeth.....	4
3. Cyhuddiadau troseddol, euogfarnau troseddol a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) .....	4
4. Cyfathrebu â PCYDDS .....	4
5. Rheoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau PCYDDS .....	5
6. Gwneud newidiadau .....	6
7. Digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth .....	8
8. Undeb y Myfyrwyr.....	9
9. Diogelu Data .....	9
10. Eich hawliau i ganslo pan fyddwch yn derbyn ein cynnig.....	9
11. Eich hawliau i ganslo a thynnu'n ôl ar ddechrau eich rhaglen.....	10
12. Eich hawliau i derfynu ar ôl 14 diwrnod .....	11
13. Ein hawliau i derfynu.....	11
14. Cwynion gan fyfyrwyr .....	12
15. Cyffredinol .....	12
Atodiad 1 – Mân newidiadau a newidiadau mawr a gohebiaeth .....	13
Atodiad 2 – Ffurflen ganslo .....	15

## Cyflwyniad

Os byddwch yn derbyn cynnig o le ar raglen astudio yn PCYDDS, byddwch yn ymrwmo i gytundeb (contract) â ni. Y Cytundeb Myfyriwr hwn (y 'Cytundeb'), ynghyd â'ch llythyr cynnig, yw'r contract cyfreithiol gyfrwymol y byddwn yn ei wneud â chi ac mae'n bwysig iawn eich bod yn ei ddarllen yn ofalus cyn i chi dderbyn eich cynnig. Mae'r Cytundeb yn cynnwys dau Atodiad y dylech eu darllen.

Pan fyddwch yn ymrwmo i'r Cytundeb, byddwch yn ddarostyngedig i Reoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau PCYDDS. Byddwn yn gofyn i chi ymrwmo i Gytundeb Myfyriwr bob tro y byddwch yn cofrestru gyda ni.

Mae'r Cytundeb yn gymwys i bob myfyriwr â statws ffioedd cartref, sy'n golygu myfyrwyr yr aseswyd nad ydynt yn fyfyrwyr rhyngwladol at ddibenion ffioedd dysgu.

Yn y Cytundeb hwn, rydym yn defnyddio'r term 'rhaglen astudio' (wedi'i dalfyrro i 'raglen') i gyfeirio at y gwahanol fathau o gyrсияu a gynigir gennym. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni gradd, rhaglenni prentisiaeth a chyrсияu byr a all arwain at ddyfarnu credyd neu gymhwyster.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Cytundeb, anfonwch neges e-bost i: [cofrestrfa@ydds.ac.uk](mailto:cofrestrfa@ydds.ac.uk)

### 1. Talu Ffioedd

- 1.1 Nodir y ffioedd dysgu ar gyfer eich rhaglen astudio ('rhaglen') yn eich llythyr cynnig. Ceir gwybodaeth ar [wefan PCYDDS](#) hefyd. Gall ffioedd gynyddu bob blwyddyn. Rhaid i chi roi gwybodaeth i ni am sut y byddwch yn talu eich ffioedd dysgu pan fyddwn yn gofyn amdani.
- 1.2 Rhaid i chi dalu eich ffioedd dysgu ac unrhyw daliadau eraill a all gael eu codi arnoch tra byddwch yn astudio gyda ni, megis ffioedd llety, pan fyddant yn ddyledus. Chi, y myfyriwr, sy'n bennaf cyfrifol am dalu ffioedd dysgu ac unrhyw daliadau eraill. Rhaid i chi hefyd sicrhau y gallwch dalu unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen, fel y'u disgrifir ar ein gwefan.
- 1.3 Byddwn yn eich anfonebu am y swm llawn neu'r rhan o'ch ffioedd dysgu sy'n weddill am bob blwyddyn o'ch rhaglen ar ddechrau eich blwyddyn academiaidd. Efallai y bydd adegau pan na fyddwn yn gwneud hyn, megis pan fydd eich ffioedd yn cael eu talu'n uniongyrchol i ni gan gorff allanol neu'ch cyflogwr neu'ch noddwr.
- 1.4 Os byddwch yn cofrestru ar y sail eich bod yn gwneud cais am ostyngiad yn y ffioedd dysgu, bwrsari neu un o ffynonellau cyllido eraill PCYDDS neu y byddwch yn gwneud hynny, rhaid i chi dalu'r swm llawn sy'n ddyledus os na chaiff y cais ei gymeradwyo.
- 1.5 Os byddwch yn byw yn [llety PCYDDS](#), rhaid i chi dalu eich ffioedd llety ac unrhyw daliadau cysylltiedig yn unol â'r amserlen dalu a ddarperir a'n telerau ac amodau ar gyfer llety preswyl.
- 1.6 Os na fyddwch yn talu eich ffioedd dysgu na ffioedd eraill pan fyddant yn ddyledus ac nad ydych yn gwneud trefniadau boddhaol ar gyfer talu unrhyw symiau sy'n ddyledus, cadwn yr hawl i gychwyn achos cyfreithiol er mwyn adennill y ddyled. Os bydd unrhyw ffioedd dysgu yn ddyledus ar ddiwedd eich blwyddyn academiaidd, fel arfer ni fyddwn yn caniatáu i chi symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf o astudiaethau, cael eich dyfarniad na graddio. Os bydd

unrhyw ffioedd llety yn ddyledus, fel arfer ni fyddwn yn caniatáu i chi barhau i fyw yn llety PCYDDS.

## 2. Cywirdeb Gwybodaeth

- 2.1 Pan fyddwch yn cofrestru gyda ni, byddwn yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi rhoi gwybodaeth lawn a chywir amdanoch chi eich hun. Os bydd y wybodaeth hon yn newid ar ôl i chi gofrestru, rhaid i chi anfon neges e-bost i:

Rhaglenni a gyflwynir yng Nghymru – [cofrestrfa@ydds.ac.uk](mailto:cofrestrfa@ydds.ac.uk)

Rhaglenni a gyflwynir yn Llundain – [londonstudentservices@uwtsd.ac.uk](mailto:londonstudentservices@uwtsd.ac.uk)

Rhaglenni a gyflwynir yn Birmingham – [birminghamstudentservices@uwtsd.ac.uk](mailto:birminghamstudentservices@uwtsd.ac.uk)

- 2.2 Cadwn yr hawl i derfynu ein contract â chi os daw i'r amlwg yn ddiweddarach eich bod wedi rhoi gwybodaeth anghyflawn, anghywir neu gamarweiniol i ni.

## 3. Cyhuddiadau troseddol, euogfarnau troseddol a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

- 3.1 Gofynnwn i chi ein hysbysu ar unwaith os cewch eich dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd unrhyw bryd ar ôl i chi gofrestru gyda ni nes i chi gwblhau eich rhaglen.
- 3.2 Os bydd eich rhaglen yn cael ei rheoleiddio'n broffesiynol neu os bydd yn rhaid i'r rhai sy'n cofrestru ar ei chyfer gwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd yn rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith os bydd eich amgylchiadau yn newid mewn perthynas â'ch addasrwydd i ymarfer neu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hyn yn cynnwys ein hysbysu ar unwaith am unrhyw gyhuddiadau troseddol rydych yn eu hwynebu ac unrhyw euogfarnau troseddol.
- 3.3 Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gennych dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ddechrau eich rhaglen a rhaid i chi ei darparu i ni os byddwn yn gofyn amdani.
- 3.4 Os na fydd eich rhaglen yn cael ei rheoleiddio'n broffesiynol neu os na fydd yn rhaid i chi gwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn ei dilyn a'ch bod yn dewis astudio modiwl neu ymgymryd â lleoliad sy'n gofyn i chi gwblhau gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gennych dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ddechrau'r modiwl neu'r lleoliad a rhaid i chi ei darparu i ni os byddwn yn gofyn amdani.

## 4. Cyfathrebu â PCYDDS

- 4.1 Pan fyddwch yn cofrestru rhoddir cyfrif e-bost PCYDDS i chi a mynediad i borth y myfyrwyr ar MyTSD. Caiff pob gohebiaeth gennym ei hanfon drwy'r sianeli hyn a rhaid i chi edrych arnynt yn rheolaidd.

## 5. Rheoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau PCYDDS

- 5.1 Rydych yn cytuno i gydymffurfio â holl [Reoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau PCYDDS](#).
- 5.2 Chi sy'n gyfrifol am ymgylfarwyddo â'r rheoliadau, y polisiâu a'r gweithdrefnau sy'n gymwys i chi. Yn benodol:
- 5.2.1 Mae ein [Siarter Myfyrwyr](#) yn esbonio'r cyfrifoldebau sydd gan PCYDDS i'w myfyrwyr a'r cyfrifoldebau sydd gennych tra byddwch yn astudio gyda ni;
- 5.2.2 Mae ein [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#) yn disgrifio'r rheoliadau, y polisiâu a'r gweithdrefnau academaidd sy'n gymwys i bob myfyriwr, er enghraifft:
- 5.2.3 Disgrifir ein gofynion o ran eich ymgysylltiad academaidd, eich cynnydd academaidd a'ch presenoldeb ym Mhenodau 6-8 a 12 o'r [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#). Os na fyddwch yn bodloni'r gofynion hyn, mae'n bosib na chaniateir i chi barhau ar eich rhaglen.
- 5.2.4 Disgrifir ein rheoliadau ynglŷn â chamymddwyn academaidd, gan gynnwys llên-ladrad a'r prosesau rydym yn eu defnyddio i'w ganfod, yn ein Polisi Camymddwyn Academaidd (Pennod 12 o'r [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#)). Os na fyddwch yn dilyn y rheoliadau hyn, efallai y bydd angen i ni gymryd camau disgyblu a gallech wynebu cosbau academaidd a/neu gael eich diarddel o'r brifysgol. Drwy gofrestru gyda ni, rydych yn rhoi caniatâd i'ch gwaith gael ei wirio yn erbyn cronfa ddata'r Gwasanaeth Canfod Llên-ladrad
- 5.2.5 Mae ein Polisi Apeliadau Academaidd (Pennod 12 o'r [Llyfr Ansawdd Academaidd](#)) yn disgrifio sut y gallwch apelio yn erbyn penderfyniad academaidd rydym wedi'i wneud amdanoch chi a sut y byddwn yn ymateb.
- 5.2.6 Disgrifir ein gofynion o ran ymddygiad myfyrwyr yng Nghod Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol a'n Polisi Camymddwyn Anacademaidd (Pennod 12 o'r [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#)). Os na fyddwch yn dilyn y rheoliadau hyn, efallai y byddwn yn cymryd camau disgyblu a gallech wynebu cosbau a/neu gael eich diarddel o'r brifysgol.
- 5.2.7 Mae ein Polisi a Gweithdrefn Cymorth i Astudio (Pennod 12 o'r [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#)) yn disgrifio'r camau y gallem eu cymryd os bydd pryderon ynghylch eich iechyd a'ch llesiant neu'ch gallu i astudio ar eich rhaglen.
- 5.2.8 Mae ein Polisi Addasrwydd i Ymarfer (Pennod 12 o'r [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#)) yn gymwys i fyfyrwyr ar raglenni â ffocws proffesiynol ac mae'n disgrifio'r camau y gallem eu cymryd os bydd pryderon ynghylch eich addasrwydd i ymarfer.
- 5.2.9 Mae Protocol Lleoliadau Myfyrwyr y Brifysgol (Pennod 11 o'r [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#)) yn disgrifio ein gofynion o ran trefnu unrhyw leoliad a all ffurfio rhan o'ch rhaglen ac ymddygiad yn ystod y lleoliad hwnnw.
- 5.2.10 Mae ein Polisi Eiddo Deallusol: Myfyrwyr (Pennod 12 o'r [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#)) yn disgrifio ein rheolau ynglŷn ag eiddo deallusol a grëir gan ein myfyrwyr.
- 5.2.11 Mae ein Polisi Diogelu (Pennod 12 o'r [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#)) yn disgrifio ein gweithdrefnau a'n cyfrifoldebau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu.

- 5.2.12 Disgrifir ein rheoliadau ynglŷn â defnyddio TG yn PCYDDS yn ein [Polisi ar y Defnydd Derbyniol o Dechnoleg Gwybodaeth](#). Os na fyddwch yn dilyn y rheoliadau hyn, efallai y byddwn yn cymryd camau disgyblu a gallech wynebu cosbau a/neu gael eich diarddel o'r brifysgol.
- 5.2.13 Disgrifir ein rheolau ynglŷn â smygu ar safleoedd y Brifysgol ym [Mholisi Ysmygu Myfyrwyr](#) y Brifysgol Os na fyddwch yn dilyn y rheoliadau hyn, efallai y byddwn yn cymryd camau disgyblu a gallech wynebu cosbau a/neu gael eich diarddel o'r brifysgol.
- 5.2.14 Nodir ein rheoliadau ynglŷn â thalu symiau sy'n ddyledus i ni ar [dudalennau Ffioedd a Chyllid Myfyrwyr](#) ein gwefan. Os na fyddwch yn talu arian sy'n ddyledus i ni, efallai y byddwn yn cymryd camau i adennill y ddyled a gallech wynebu cosbau a/neu gael eich diarddel o'r brifysgol.
- 5.3 Os byddwch yn byw yn llety PCYDDS, bydd telerau ac amodau preswyl hefyd yn gymwys i chi.

## 6. Gwneud newidiadau

### *Newidiadau i raglenni astudio*

- 6.1 Mae ein cynnig o le i astudio yn PCYDDS yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am y rhaglen ar y dyddiad y cynigir lle i chi. Mae'r wybodaeth am raglenni ar ein gwefan yn cynnwys rhestr o'r modiwlau a allai fod ar gael ar gyfer eich rhaglen. Nid ydym yn gwarantu y bydd modiwlau dewisol yn mynd yn eu blaen nac ychwaith y byddant ar gael i bob myfyriwr. Efallai y cyfyngir ar eich dewis o fodiwlau gan gyfyngiadau o ran amserlennu, staffio, cyfleusterau neu nifer y lleoedd sydd ar y modiwl.
- 6.2 Byddwn yn ceisio cyflwyno'r rhaglenni fel y'u disgrifir ar ein gwefan ar gyfer y flwyddyn academaidd rydych yn dechrau astudio gyda ni. Mae gennym hawl i wneud newidiadau rhesymol i raglen pan fo'u hangen i'n helpu i roi profiad addysgol gwell i fyfyrwyr. Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm, dulliau addysgu a dysgu a mathau o asesiadau yn gyfredol, cynnal safonau academaidd a gwella ansawdd cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr. Rydym yn adolygu ein rhaglenni yn ffurfiol bob blwyddyn ac rydym yn eu hailgymeradwyo (neu eu 'hailddilysu') yn rheolaidd.
- 6.3 Mae rhaglenni sy'n gorfod cael eu cymeradwyo neu'n hailddilysu, neu lle mae nifer gofynnol o fyfyrwyr sydd eu hangen er mwyn i ni gynnal y rhaglen, wedi'u labelu ar ein gwefan. Mae adolygiadau blynyddol yn aml yn arwain at **fân newidiadau neu newidiadau 'ansylweddol'** na fyddant yn effeithio ar natur, ffocws na diben y rhaglen. Dim ond os na fydd effaith gyffredinol y newid yn sylweddol a'i fod naill ai'n niwtral neu'n fanteisiol i fyfyrwyr y byddwn yn gwneud newidiadau fel arfer. Fodd bynnag, weithiau efallai na fydd yn bosibl osgoi **newidiadau mawr** yn ystod adolygiad blynyddol ac ar adegau eraill er mwyn diweddarau cynnwys rhaglenni neu oherwydd problemau nas rhagwelwyd megis argaeledd staff, argaeledd goruchwylwyr ymchwil, nifer y myfyrwyr neu argaeledd adnoddau. Bydd newidiadau mawr yn aml yn cael eu gwneud pan gaiff rhaglen ei hailddilysu.
- 6.4 Os bydd angen i ni wneud **newidiadau mawr**, byddwn yn ceisio cyfyngu cymaint â phosibl arnynt. Os byddwch wedi derbyn cynnig, byddwn yn cysylltu â chi yn ysgrifenedig cyn

gynted ag y bo'n rhesymol bosibl os byddwn yn gwneud newidiadau mawr i'r wybodaeth am y rhaglen ar ein gwefan neu'r wybodaeth rydym wedi'i rhoi i chi. Byddwn yn eich gwahodd i gadarnhau eich bod yn derbyn y newidiadau ymlaen llaw neu pan fyddwch yn cofrestru.

- 6.5 Os byddwn yn gohirio rhaglen rydych wedi gwneud cais amdani neu'n ei thynnu'n ôl, byddwn yn cynnig trefniadau amgen i chi os gallwn yn rhesymol wneud hynny, ar yr amod (fel y bo'n berthnasol) fod lleoedd ar gael a'ch bod yn bodloni unrhyw amodau mynediad, amodau academiaidd neu amodau eraill sy'n berthnasol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn cynnig rhaglen addas arall i chi, neu'n ad-dalu ffioedd a'ch blaendal os byddwch wedi talu un, neu efallai y byddwn yn cynnig cymorth rhesymol i chi gael lle gyda darparwr arall. Efallai y bydd cyfyngiadau ar y cynnig neu amodau ynghlwm wrtho.
- 6.6 Os byddwch eisoes wedi cofrestru gyda ni, byddwn yn trafod unrhyw newidiadau mawr a fydd yn effeithio arnoch ymlaen llaw ac yn gofyn eich barn. Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'n cynlluniau. Ein nod bob amser fydd sicrhau profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr. Os na fyddwch yn fodlon ar y newidiadau, byddwn yn cynnig cyfle i chi dynnu'n ôl o'ch rhaglen. Os byddwch yn dymuno hynny, byddwn yn rhoi cymorth rhesymol i chi drosglwyddo i raglen arall gyda ni neu i ddarparwr arall.
- 6.7 Ceir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn **diffinio mân newidiadau a newidiadau mawr** a sut y byddwn yn cyfathrebu â chi amdanynt yn Atodiad 1 i'r Cytundeb hwn.

#### ***Newidiadau i Reoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau***

- 6.8 Mae gennym hawl i ychwanegu at ein Rheoliadau, ein Polisiâu a'n Gweithdrefnau, ac unrhyw godau neu weithdrefnau cysylltiedig, eu dileu neu eu newid. Fel arfer, rydym yn gwneud newidiadau am un neu fwy o'r rhesymau canlynol:
- 6.8.1 er mwyn sicrhau bod ein Rheoliadau, ein Polisiâu a'n Gweithdrefnau yn addas at y diben;
- 6.8.2 er mwyn ein helpu i gyflwyno addysg yn briodol;
- 6.8.3 er mwyn adlewyrchu newidiadau yn yr amgylchedd allanol, gan gynnwys newidiadau cyfreithiol neu reoleiddiol, newidiadau i drefniadau cyllid neu drefniadau ariannol neu newidiadau i bolisi, gofynion neu ganllawiau'r Llywodraeth;
- 6.8.4 er mwyn cynnwys canllawiau neu arferion gorau'r sector;
- 6.8.5 er mwyn cynnwys adborth gan fyfyrwyr; a/neu
- 6.8.6 er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn eglur neu'n gyson.
- 6.9 Byddwn yn ymgynghori ag Undeb y Myfyrwyr cyn gwneud unrhyw newidiadau i Reoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau sy'n effeithio ar fyfyrwyr.
- 6.10 Fel arfer, daw unrhyw newidiadau i rym ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf. Efallai y caiff rhai eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn academiaidd os byddwn o'r farn ei bod er budd myfyrwyr, neu os bydd yn ofynnol o dan y gyfraith neu o dan amgylchiadau eithriadol eraill. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y terfir cyn lleied â phosibl ar fyfyrwyr.

- 6.11 Caiff y Rheoliadau, y Polisiâu a'r Gweithdrefnau wedi'u diweddarau eu cyhoeddi ar ein gwefan. Gallant hefyd gael eu cyhoeddi drwy ddulliau eraill er mwyn i chi gael eich hysbysu am unrhyw newidiadau.

## 7. Digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth

- 7.1 Byddwn yn gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i ddarparu'r rhaglen a gwasanaethau a chyfleusterau addysgol cysylltiedig a gwasanaethau a chyfleusterau cysylltiedig eraill, fel y'u disgrifir yn y wybodaeth berthnasol a nodir ar ein gwefan neu mewn dogfennau eraill rydym wedi'u hanfon atoch. Fodd bynnag, ni fyddwn yn atebol nac yn gyfrifol am unrhyw fethiant i gyflawni, nac unrhyw oedi cyn cyflawni, unrhyw un o'n rhwymedigaethau o dan y contract a achosir gan ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth.
- 7.2 Mae digwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth yn golygu unrhyw weithred neu ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth resymol gan gynnwys heb gyfyngiad:
- 7.2.1 streiciau, cau allan neu weithredu diwydiannol arall gan ein staff neu drydydd partïon;
- 7.2.2 anhrefn sifil, terfysg, goresgyniad, ymosodiad terfysgol neu fygythiad ymosodiad terfysgol, rhyfel (p'un a gafodd ei ddatgan ai peidio) neu fygythiad rhyfel neu baratoi ar gyfer rhyfel, tân, ffrwydrad, storm, llifogydd, daeargryn, ymsuddiant neu drychineb naturiol arall neu 'weithred gan dduw';
- 7.2.3 methiant rhwydweithiau telathrebu cyhoeddus neu breifat;
- 7.2.4 pandemig, epidemig ac unrhyw gyfyngiadau neu ofynion a allai gael eu gosod ar unrhyw lywodraeth neu awdurdod perthnasol, ac a fydd yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw darfu a achosir o ganlyniad i darfu parhaus gan COVID-19.
- 7.3 Os bydd digwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth fydd yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn:
- 7.3.1 byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl er mwyn eich hysbysu;
- 7.3.2 byddwn yn gwneud y cyfryw newidiadau i'r rhaglen, ein cyfleusterau neu'r Cytundeb ag sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir gan y llywodraeth neu, fel arall, liniaru effaith y cyfryw ddigwyddiad arnoch chi.
- 7.3.3 caiff ein rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn eu hatal a chaiff yr amser ar gyfer cyflawni ein rhwymedigaethau ei ymestyn tra bydd y digwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth yn para.
- 7.4 Gallai'r newidiadau a wnawn gynnwys, er enghraifft:
- 7.4.1 lle y bo'n rhesymol bosibl, cynnig cyfle i chi drosglwyddo i raglen arall;
- 7.4.2 gohirio dyddiad dechrau eich rhaglen;



- 7.4.3 cyflwyno eich rhaglen mewn ffordd wahanol, neu o leoliad arall neu ar-lein, neu ar amser arall;
- 7.4.4 cyflwyno fersiwn wedi'i haddasu o'r un rhaglen;
- 7.4.5 eich helpu i drosglwyddo i gwblhau eich rhaglen gyda darparwr arall;
- 7.4.6 darparu gwasanaethau a chyfleusterau eraill mewn ffordd wahanol, o leoliad gwahanol neu ar-lein;
- 7.4.7 cynnig ad-daliad neu iawndal i chi lle y bo'n briodol.
- 7.5 Os na fyddwch yn fodlon ar y camau a gymerwyd i liniaru'r tarfu a achosir, cewch derfynu'r Cytundeb hwn a/neu gwyno o dan ein [Polisi Cwynion Myfyrwyr](#).
- 7.6 Os bydd angen cau neu derfynu eich rhaglen neu roi'r gorau i'w chyflwyno, byddwn yn gwneud popeth sy'n rhesymol bosibl i'ch helpu i drosglwyddo i ddarparwr arall a byddwn yn ad-dalu ffioedd yn unol â'n polisi a'n hamserlen ad-dalu.

## 8. Undeb y Myfyrwyr

- 8.1 Pan fyddwch yn cofrestru gyda ni, byddwch yn dod yn aelod o [Undeb y Myfyrwyr](#) yn awtomatig. Os byddwch yn penderfynu nad ydych am fod yn aelod, rhaid i chi gysylltu ag Undeb y Myfyrwyr er mwyn canslo eich aelodaeth.
- 8.2 Mae [Cod Ymarfer ar Undeb y Myfyrwyr](#) PCYDDS yn disgrifio sut mae ein corff llywodraethu yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Addysg 1994. Hefyd, mae Cytundeb Perthynas rhwng PCYDDS ac Undeb y Myfyrwyr a adolygir bob blwyddyn.

## 9. Diogelu Data

- 9.1 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb hwn, byddwch yn rhoi caniatâd i ni storio a phrosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.
- 9.2 Ceir manylion am sut rydym yn defnyddio ac yn diogelu eich data yn ein [Polisi Diogelu Data](#), ein [Datganiad Preifatrwydd Ymgeiswyr](#) a'n [Datganiad Preifatrwydd Myfyrwyr](#). Mae'r Datganiad Preifatrwydd Ymgeiswyr a'r Datganiad Preifatrwydd Myfyrwyr yn disgrifio eich hawliau mewn perthynas â'r data a ddelir gennym.

## 10. Eich hawliau i ganslo pan fyddwch yn derbyn ein cynnig

- 10.1 Os byddwch yn derbyn ein cynnig, byddwch yn derbyn y Cytundeb hwn. Mae gennych hawl gyfreithiol i newid eich meddwl a chanslo eich cytundeb o fewn 14 diwrnod i dderbyn ein cynnig. Nid oes rhaid i chi roi rheswm. Gelwir y 14 diwrnod yn **gyfnod canslo statudol**. Cewch ganslo drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ganslo sydd wedi'i hatodi fel **Atodiad 2** i'r Cytundeb hwn. Os ydych yn ymgeisydd o'r Deyrnas Unedig, gallwch hefyd ein ffonio ar

0300 323 1828 neu anfon neges e-bost i: [cofrestrfa@ydds.ac.uk](mailto:cofrestrfa@ydds.ac.uk). Os byddwch wedi cyflwyno cais i ni drwy UCAS, rhaid i chi hefyd gysylltu ag UCAS yn uniongyrchol.

- 10.2 Os byddwch yn canslo'r Cytundeb o fewn 14 diwrnod i dderbyn ein cynnig a'ch bod wedi talu blaendal neu symiau eraill i ni eisoes, byddwn yn ad-dalu'r symiau a dalwyd yn llawn gan ddefnyddio'r un dull talu a ddefnyddiwyd gennych ar gyfer y trafodiad cychwynnol (oni fyddwch wedi cytuno fel arall yn benodol).
- 10.3 Os byddwch yn derbyn ein cynnig ond eich bod wedyn yn penderfynu yr hoffech ohirio eich dyddiad dechrau yn PCYDDS, rhaid i chi gysylltu â ni drwy anfon neges e-bost i [cofrestrfa@ydds.ac.uk](mailto:cofrestrfa@ydds.ac.uk). Efallai y byddwn yn cytuno i ohirio eich dyddiad dechrau neu efallai y byddwn yn gofyn i chi ailymgeisio. Efallai na fyddwn yn ad-dalu eich blaendal oni fyddwch wedi dweud wrthym eich bod am ohirio eich dyddiad dechrau o fewn 14 diwrnod i dderbyn ein cynnig.
- 10.4 Os disgwylir i'ch rhaglen ddechrau o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad rydych yn derbyn ein cynnig, drwy dderbyn y cynnig rydych yn cytuno'n benodol y bydd ein gwasanaeth i chi yn dechrau o fewn y cyfnod canslo statudol. Os byddwch wedyn yn penderfynu canslo'r Cytundeb o fewn y cyfnod canslo statudol, bydd yn rhaid i chi dalu cyfran o ffioedd y rhaglen (am y cyfnod o ddechrau eich rhaglen tan y dyddiad canslo).
- 10.5 Os byddwn wedi'ch hysbysu ein bod yn gwneud newidiadau i raglen rydych wedi derbyn cynnig lle arni, mae gennych hawl i dynnu eich cais yn ôl a therfynu'r Cytundeb neu drosglwyddo eich cais i raglen arall yn PCYDDS.
- 10.6 Cewch derfynu'r Cytundeb ar unwaith drwy ein hysbysu'n ysgrifenedig os byddwch wedi derbyn ein cynnig gan ddefnyddio system UCAS fel eich dewis 'Yswiriant' a'ch bod yn penderfynu astudio yn y sefydliad a nodwyd gennych fel eich dewis 'Cadarn'.

## 11. Eich hawliau i ganslo a thynnu'n ôl ar ddechrau eich rhaglen

- 11.1 Yn ogystal â'ch hawliau canslo statudol ar ôl i chi dderbyn ein cynnig, mae gennych hawl i dynnu'n ôl o'ch rhaglen cyn i chi gofrestru neu dynnu'n ôl o fewn 14 diwrnod ar ôl dyddiad dechrau eich rhaglen. Nid oes rhaid i chi roi rheswm. Cewch ganslo drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ganslo sydd wedi'i hatodi fel Atodiad 2 i'r Cytundeb hwn. Os ydych yn ymgeisydd o'r DU, gallwch anfon neges e-bost atom yn: [cofrestrfa@ydds.ac.uk](mailto:cofrestrfa@ydds.ac.uk) neu ein ffonio ar 0300 323 1828.
- 11.2 Os byddwch yn tynnu'n ôl o fewn 14 diwrnod i ddyddiad dechrau'r rhaglen, byddwn yn ad-dalu unrhyw ffioedd rydych wedi'u talu. Ni fyddwn yn ad-dalu unrhyw flaendal a dalwyd gennych pan wnaethoch dderbyn ein cynnig.
- 11.3 Os byddwch yn penderfynu tynnu'n ôl neu atal eich astudiaethau dros dro, chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw oblygiadau ariannol a nodir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr neu unrhyw noddwr a all fod gennych.

## 12. Eich hawliau i derfynu ar ôl 14 diwrnod

- 12.1 Heb effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd ar gael, cewch derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith drwy ein hysbysu'n ysgrifenedig:
  - 12.1.1 os byddwn yn torri telerau'r Cytundeb yn ddifrifol ac nad ydym wedi gallu unioni pethau o fewn cyfnod rhesymol o amser yn unol â'n gweithdrefnau;
  - 12.1.2 os bydd hawl i derfynu yn codi o ganlyniad i ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth;
  - 12.1.3 os na fyddwch yn fodlon ar newid mawr rydym wedi'i wneud i'ch rhaglen neu'r Cytundeb.

## 13. Ein hawliau i derfynu

- 13.1 Heb effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd ar gael i ni, gallwn atal y Cytundeb hwn dros dro neu ei derfynu drwy ysgrifennu atoch os byddwn wedi penderfynu, ar ôl dilyn y prosesau a ddisgrifir yn ein Rheoliadau, ein Polisiâu a'n Gweithdrefnau:
  - 13.1.1 nad ydych wedi rhoi tystiolaeth foddhaol i ni eich bod wedi bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer eich rhaglen;
  - 13.1.2 eich bod wedi rhoi gwybodaeth i ni sy'n anghywir neu'n gamarweiniol (gweler uchod, Cywirdeb Gwybodaeth);
  - 13.1.3 nad ydych wedi darparu tystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ni pan ofynnwyd i chi wneud hynny (gweler uchod, Cyhuddiadau troseddol, euogfarnau troseddol a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd);
  - 13.1.4 bod yn rhaid i chi adael eich rhaglen am resymau academiaidd neu resymau disgyblu (gweler uchod; y Llawlyfr Ansawdd Academiaidd Penodau 6-8 a Phennod 12; Polisi Camymddwyn Academiaidd; Cod Ymddygiad Myfyrwyr; Polisi Camymddwyn Anacademaidd; Polisi Defnydd Derbyniol o TG; Polisi Ysmygu Myfyrwyr);
  - 13.1.5 na allwch reoli eich materion eich hun mwyach neu na allwch gwblhau eich astudiaethau (gweler uchod, Polisi a Gweithdrefn Cymorth i Astudio; Polisi Addasrwydd i Ymarfer);
  - 13.1.6 nad ydych chi (neu drydydd parti enwebedig perthnasol) wedi talu unrhyw swm sy'n ddyledus o dan delerau'r Cytundeb (gweler uchod, Talu Ffioedd);
  - 13.1.7 eich bod wedi torri'r Cytundeb yn ddifrifol ac (os gellir unioni'r fath achos o dor-cytundeb) nad ydych yn unioni'r achos hwnnw o dor-cytundeb o fewn 28 diwrnod ar ôl cael eich hysbysu'n ysgrifenedig i wneud hynny;
- 13.2 Gallwn hefyd atal y Cytundeb hwn dros dro neu ei derfynu ar unwaith drwy ysgrifennu atoch:
  - 13.2.1 os na fyddwch wedi cofrestru;
  - 13.2.2 os byddwn wedi colli ein hawl gyfreithiol neu reoleiddiol neu ein cymeradwyaeth berthnasol i ddarparu eich rhaglen;

13.2.3 os bydd hawl i derfynu yn codi o ganlyniad i ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth.

13.3 Os byddwn yn terfynu'r Cytundeb am reswm sy'n ymwneud â'ch camymddwyn neu'ch gweithredoedd, byddwch yn atebol o hyd am dalu unrhyw ffioedd dysgu a ffioedd eraill sy'n ddyledus o ran y Cytundeb.

## 14. Cwynion gan fyfyrwyr

14.1 Mae ein Polisi Cwynion Myfyrwyr (Pennod 12 o'r [Llawlyfr Ansawdd Academaidd](#)) yn darparu gwybodaeth am sut i gwyno am safon y gwasanaeth a ddarperir gennym a sut y byddwn yn ymateb. Os byddwch wedi gwneud cwyn i ni a'ch bod yn anfodlon ar y canlyniad o hyd, mae gennych hawl i ofyn am adolygiad gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch gan ddefnyddio'r gweithdrefnau a gyhoeddir ar wefan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. [www.oiahe.org.uk](http://www.oiahe.org.uk)

## 15. Cyffredinol

15.1 Contract rhwng PCYDDS ('ni') a'r myfyriwr ('chi') yw'r Cytundeb Myfyriwr hwn. Ni fydd gan unrhyw berson arall unrhyw hawliau i orfodi unrhyw un o'i delerau.

15.2 Mae pob un o baragraffau'r Cytundeb hwn yn gweithredu ar wahân. Os bydd unrhyw lys neu awdurdod perthnasol yn penderfynu bod unrhyw un ohonynt yn anghyfreithlon, bydd y paragraffau sy'n weddill yn parhau mewn grym ac yn weithredol.

15.3 Os na fyddwn yn mynnu eich bod yn cyflawni unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan y telerau hyn, neu os na fyddwn yn gorfodi ein hawliau yn eich erbyn, neu os byddwn yn oedi cyn gwneud hynny, ni fydd hynny'n golygu ein bod wedi ildio ein hawliau yn eich erbyn ac ni fydd yn golygu nad oes rhaid i chi gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

15.4 Rheolir y Cytundeb hwn gan gyfraith Lloegr. Rydym ni ac rydych chi yn cytuno yr ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi mewn perthynas â'r Cytundeb gan Lysoedd Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, gallwch hefyd gymryd camau yn llysoedd Gogledd Iwerddon ac, os ydych yn byw yn yr Alban, gallwch hefyd gymryd camau yn llysoedd yr Alban.

## Atodiad 1 – Mân newidiadau a newidiadau mawr a gohebiaeth

Bydd cynnig o le i astudio yn y Brifysgol yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am y Rhaglen Astudio, ar ddyddiad derbyn y cynnig. Mae gwybodaeth megis y modiwlau craidd a syniad o'r modiwlau dewisol ar gael i ymgeiswyr ar dudalennau'r cyrsiau ar wefan y Brifysgol.

Fodd bynnag, efallai y bydd angen newid gwybodaeth am raglenni, gan gynnwys y disgrifiad o'r rhaglen, ei chynnwys, sut a ble y caiff ei chyflwyno a/neu'r amserlen, gwasanaethau, cyfleusterau a/neu Siarter Frenhinol, Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau a Chanllaw Academaidd y Brifysgol. Mae rhesymau dros wneud newidiadau yn cynnwys y rhesymau canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- er mwyn bodloni gofynion corff achredu, corff proffesiynol, corff statudol a/neu gorff rheoleiddio;
- er mwyn ymateb i arferion da neu brosesau gwella ansawdd y sector;
- er mwyn sicrhau bod rhaglenni yn gyfredol drwy ddiweddarau arferion, modiwlau neu feysydd astudio;
- oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol, megis aelod allweddol o'r staff yn gadael y Brifysgol neu'n methu ag addysgu (os bydd y rhaglen neu'r modiwl yn dibynnu ar arbenigedd yr unigolyn hwnnw);
- gwelliannau i Ystad a Chyfleusterau'r Brifysgol a chynllun arfaethedig i adleoli Ysgolion;
- Mae amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol yn cynnwys gweithredu diwydiannol, tywydd garw, clefydau pandemig sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd, tân, anhrefn sifil, aflonyddwch gwleidyddol, cyfyngiadau'r Llywodraeth neu bryder mawr ynghylch trosglwyddo clefyd trosglwyddadwy sy'n golygu nad yw rhaglen yn ddiogel i'w chyflwyno.

Efallai y bydd angen newid rhaglenni neu fodiwlau hefyd os na chafwyd y nifer gofynnol o fyfyrwyr sydd eu hangen i sicrhau profiad addysgol da neu brofiad da i fyfyrwyr. Noder, o dan rai amgylchiadau eithriadol, y gallai rhaglenni gael eu tynnu'n ôl (cyn iddynt ddechrau) am y rheswm hwn.

Os gwneir newidiadau i'ch rhaglen ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i'ch hysbysu am y newidiadau hynny.

Os caiff eich rhaglen ei thynnu'n ôl neu os gwneir newidiadau sylweddol i'ch rhaglen ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i'ch hysbysu'n gynnar am y newidiadau hynny a, lle y bo'n gymwys, yn cynnig rhaglen addas amgen i chi yn y Brifysgol. Bydd gennych hawl hefyd i dynnu'n ôl o'ch rhaglen a gwneud cais am i unrhyw ffioedd dysgu rydych wedi'u talu gael eu had-dalu neu eu had-dalu'n rhannol.

Mae PCYDDS yn ystyried bod yr achosion canlynol wedi'u diffinio fel **newidiadau mawr**:

- newid i deitl y rhaglen neu'r dyfarniad neu gyflwyno dyfarniad newydd o fewn rhaglen;
- newid i'r dull o gyflwyno rhaglen (amser llawn/rhan-amser/dysgu cyfunol/iaith ac ati);
- newid i'r man lle y cyflwynir rhaglen (campws gwahanol, oddi ar y safle neu allgymorth);
- cyflwyno llwybr newydd a enwir o fewn dyfarniad cymeradwy;
- cyflwyno deunydd newydd neu fodiwlau newydd sy'n arwain at newid sylweddol;

- newid sy'n cyflwyno gofynion ychwanegol o ran adnoddau, gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau at ddyddiadau derbyn myfyrwyr neu unrhyw newidiadau i ddyddiadau o'r fath.

Mae PCYDDS yn ystyried bod yr achosion canlynol wedi'u diffinio fel **mân newidiadau**:

- newidiadau i ganlyniadau dysgu, y fethodoleg asesu neu gynnwys dangosol modiwlau presennol;
- newid i deitl modiwl cymeradwy;
- ychwanegu modiwl cymeradwy at lwybr a enwir;
- cyflwyno deunydd newydd neu fodiwlau newydd nad yw/nad ydynt yn newid y rhaglen yn sylweddol;
  - petai newid sylweddol yn digwydd, byddai'r gweithdrefnau ar gyfer addasiadau neu ailddilysu yn cael eu dilyn)
- mân newidiadau strwythurol;
- cynnig modiwl cymeradwy o fewn y rhaglen mewn iaith wahanol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr ac y gall fod enghreifftiau eraill o newidiadau mawr neu fân newidiadau.

## Atodiad 2 – Ffurflen ganslo

Dylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau'n electronig gan ddefnyddio Adobe Acrobat Reader neu, os hoffech gwblhau'r ffurflen â llaw, dylech ei chwblhau mewn PRIFLYTHRENNAU gan ddefnyddio inc du.

<i>Gellir defnyddio'r ffurflen hon i hysbysu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant eich bod am ganslo eich lle ar eich dewis raglen. Er mwyn arfer eich hawl i ganslo, dylech ein hysbysu o'ch penderfyniad i ganslo o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y gwnaethoch dderbyn eich cynnig. Nid yw'n ofynnol i chi roi unrhyw reswm dros eich penderfyniad. Nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon ychwaith. Bydd datganiad ysgrifenedig yn ein hysbysu o'ch penderfyniad i ganslo a anfonir i'r cyfeiriad perthnasol isod hefyd yn dderbyniol.</i>					
Rhif Myfyriwr					
Teitl Mr/Mrs/Miss/Ms/Arall					
Cyfenw / Enw Teuluol					
Enwau Cyntaf / Enwau Bedydd					
Dyddiad Geni (DD/MM/BBBB)					
Cyfeiriad Parhaol / Cyfeiriad yn eich Gwlad Gartref					
Sir/Talaith					
Post Cod					
Gwlad					
Rhif Ffôn Cartref					
Rhif ffôn Symudol					
E-bost					
Rhaglen astudio					
Blwyddyn mynediad (h.y. Blwyddyn 1/2/3)					
Lleoliad	Abertawe	Caerfyrddin	Llanbedr Pont Steffan	Caerdydd	Birmingham
	Llundain	O bell	Arall – nodwch		
<b>Cadarnaf fy mod am ganslo fy lle i astudio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.</b>					
<b>Llofnod yr Ymgeisydd:</b> Drwy deipio eich enw yma, rydych yn llofnodi'r ffurflen hon yn electronig.				<b>Dyddiad:</b>	

Gellir cyflwyno'r ffurflen hon yn electronig neu fel copi caled drwy'r post i'r cyfeiriad isod:

[admissions@uwtsd.ac.uk](mailto:admissions@uwtsd.ac.uk)

Swyddfa Dderbyniadau, Y Gofrestrfa, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP